



**Pennaeth Cyllid**  
**Parhaol 37 awr yr wythnos**  
**Pencadlys, Parc Busnes Llanelwy**  
**Gradd 11 GTAGC £41,846 – £44,697 y flwyddyn**

Fel rhan o Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth, bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth ariannol tymor hir gan sicrhau gwerth gorau am arian wrth ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am swyddogaeth ariannol y Gwasanaeth, darparu arweiniad i ac arwain y tîm i sicrhau swyddogaeth ariannol effeithiol. Bydd eich dyletswyddau'n cynnwys cynhyrchu adroddiadau mewnol ac allanol, gosod a rheoli'r gyllideb, llywodraethu ariannol, rheoliadau allanol, goruchwyllo'r gwasanaethau ariannol gan bartneriaid allanol a hyrwyddo gwelliannau i'r gwasanaeth lle bo hynny'n bosibl. Bydd deiliad y swydd hefyd yn gweithredu fel prif gydlynnydd caffael ledled y Gwasanaeth.

#### **CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS**

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

#### **Gofynion Hanfodol**

- Meddu ar gymhwyster CCAB llawn neu rannol ond gyda phrofiad helaeth.
- Profiad o reoli tîm o staff.
- Ymwybyddiaeth i'r ddeddfwriaeth tâl.
- Sgiliau rhyngbersonol da yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Trefnus iawn a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd cynllunio at y dyfodol.
- Rhaid i chi allu gweithio i amserlenni tynn a gweithio dan bwysau.
- Lefel uchel o onestrwydd a disgresiwn proffesiynol.
- Hunan gymhellant a gallu gweithio ar eich liwt eich hun.
- Gallu blaenoriaethu llawer o dasgau sydd yn mynnu sylw ar yr un pryd a dyrannu gwaith.
- Gallu dod o hyd i atebion ymarferol a chydbwysu amryw o faterion a blaenoriaethau yn addas.
- Gallu arddangos sgiliau dadansoddi, trefnu a dogfennu cadarn.
- Gallu defnyddio cyfrifiadur.
- Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig; y gallu i ddelio gyda chydweithwyr ar sawl lefel.
- Trwydded yrru gyfredol y DU a'r gallu a'r parodrwydd i deithio oddi mewn ac y tu allan i ardal y Gwasanaeth pan fydd angen.
- Datgeliad Cofnodion Troseddau boddhaol (Sylfaenol).

Cymraeg Lefel 2 – Siarad a Gwranddo (i'w gyflawni cyn ddiwedd y cyfnod prawf – gyda cymorth) – Mynnir eich bod yn gallu; Deall hanfodion sgwrs yn y gweithle. Ymateb i ofynion syml yn ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebiadau syml. Mynegi rhywfaint o'ch barn cyn belled bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml. Fel sefydliad sydd yn gwerthfawrogi'r Gymraeg, byddwn yn cefnogi a darparu hyfforddiant i'r ymgeisydd llwyddiannus i ennill sgiliau iaith Gymraeg hyd at Lefel 2 ar Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol Cymru, oddi mewn i'w cyfnod prawf.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, 17 Ionawr 2019.**

**Dalier sylw, pe byddech yn cyrraedd y rhestr, cynhelir yr asemiadau a chyfweliadau ar 24 Ionawr 2019.**

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran

Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i [Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk](mailto:Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk)

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn

ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.

